Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.10.5 Hyrwyddo Cymorth Rhodd

Defnyddio Cymorth Rhodd yn effeithiol

Mae eich cefnogwyr yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio Cymorth Rhodd os gofynnir iddynt wneud hynny ac os ydynt yn deall y gwerth ychwanegol yma i'ch elusen, heb unrhyw gost ychwanegol iddynt hwy. Defnyddiwch yr enghreifftiau ymarferol i wir esbonio beth fydd arian Cymorth Rhodd yn eich galluogi chi i wneud. Petai elusennau yn egluro hyn mewn ffordd gyson ac yn gwneud hynny bob tro y gofynnir i'r rhoddwr roi, byddai hynny'n codi ymwybyddiaeth gyffredinol ac yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Gymorth Rhodd.

Cymorth Rhodd - y logo

Crëwyd logo'r brand gan yr Ymgyrch Rhoi, a chaiff unrhyw elusen ei ddefnyddio am ddim fel rhan o'i hymgyrch codi arian. Nod logo'r brand yw cynyddu cydnabyddiaeth y brand, ac felly mae'n bwysig fod elusennau yn ei ddefnyddio. Po fwyaf o ddefnydd a wneir ohono, y mwyaf y daw darpar roddwyr yn gyfarwydd â delwedd eglur a chyson Cymorth Rhodd ac yn fwy hyderus ynghylch ei ddefnyddio. Gydag amser, dylai eich rhoddwyr ddisgwyl gallu cynyddu eu rhodd drwy Gymorth Rhodd pryd bynnag y byddant yn rhoi arian i elusen. Mae'r logo ar gael i'w lawrlwytho o www.wcva.org.uk/givingwales.

Hyrwyddo Cymorth Rhodd

Wrth ddisgrifio Cymorth Rhodd, efallai gallwch ddefnyddio un o'r ddau ddisgrifiad safonol canlynol:

'Trwy ddefnyddio Cymorth Rhodd gallwch sicrhau y bydd eich rhodd yn werth mwy. Am bob punt yr ydych chi'n ei rhoi, mi gawn ni 25c gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Felly ticiwch yma. Mae mor syml â hynny.'

neu,

'Mae defnyddio Cymorth Rhodd yn golygu y gallwn ni adhawlio 25c gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, gan helpu eich rhodd fynd ymhellach. Mae hyn yn golygu y gellir cynyddu £100 i fod yn £125, cyn belled â bod y rhoddion yn cael eu rhoi trwy Gymorth Rhodd. Dychmygwch faint o wahaniaeth y gallai hynny ei wneud, ac nid yw'n costio ceiniog i chi. Felly os ydych am i'ch rhodd fynd ymhellach, rhowch Gymorth Rhodd. Ticiwch yma. Mae mor syml â hynny.'

Wedi ei ddiweddaru:01/07/2011

Mae'r deunyddiau hyrwyddo ar gael i'w lawrlwytho o www.wcva.org.uk/givingwales

Cyfleoedd codi arian

Gellir defnyddio Cymorth Rhodd yn llwyddiannus mewn sawl gwahanol fath o godi arian. Mae tanysgrifiadau aelodau a rhoddwyr rheolaidd yn ddulliau hawdd o godi arian er mwyn hawlio Cymorth Rhodd (HMRC / CAF 2008). Gellir defnyddio dulliau gwahanol i drosi rhoddwyr i Gymorth Rhodd, o anfon llythyron neu eu galw ar y ffôn. Mae NfpSynergy (2004) wedi darganfod fod anfon solus (ble mae'r unig ymateb yw newid i Gymorth Rhodd) wedi ei ddefnyddio gan 25% o elusennau yn unig, ond roedd yn hynod lwyddiannus. Darganfuwyd bod codi arian wyneb-yn-wyneb yn llwyddiant mawr ynghylch Cymorth Rhodd, ond ddim mor gymwys efallai ag anfon solus, a all fod yn weddol rad i'w weithredu.

Aelodaeth

Gallwch hawlio Cymorth Rhodd ar dâl aelodaeth, dim ond i'r buddion beidio rhagori ar reolau buddion HMRC. Cofiwch fod Cymorth Rhodd yn gymwys i roddion ble nad oed budd i'r rhoddwr h.y. nid yw'n gymwys i daliadau am nwyddau neu wasanaethau megis tocyn ar gyfer digwyddiad. Fodd bynnag, caniateir diolch neu arwydd gwerthfawrogiad, er enghraifft, cylchlythyr neu anrheg fechan. Ar gyfer rhoddion hyd at £100 ni ddylai gwerth y buddion fod yn fwy na 25%.

Digwyddiadau Noddedig

Sicrhewch fod gan ffurflenni noddi flwch Cymorth Rhodd, a'ch bod yn derbyn enw, cyfeiriad cartref a chôd post pob noddwr. Gellir adhawlio Cymorth Rhodd ar y mwyafrif o ddigwyddiadau noddedig oddieithr fod y person sy'n cymryd rhan yn derbyn lles (megis taith tramor neu weithgaredd her). Yn yr achos yma, ni ellir defnyddio Cymorth Rhodd. Mae taflen noddi enghreifftiol ar gael i'w lawrlwytho o www.wcva.org.uk/givingwales

Atyniadau Elusennol

Mae yna reolau newydd ar gyfer hawlio Cymorth Rhodd gan ymwelwyr i eiddo elusennol ers Ebrill 6ed 2006. Mae'r canllawiau parthed unrhyw elusen sy'n codi tâl mynediad i eiddo sy'n cael ei gadw, ei gynnal, ei warchod a'i greu gan yr elusen fel rhan o'i amcan elusennol. Mae'r canllawiau yn caniatáu mwy o elusennau sy'n codi tâl mynediad, megis gerddi, orielau celf a chanolfannau anifeiliaid, i elwa oddi wrth Gymorth Rhodd. Er mwyn elwa oddi wrth y darpariaethau yma, bydd rhaid i elusennau fanylu ar dderbyn rhoddion gan ymwelwyr wrth ymweld â'r atyniad. Bydd rhoddion yn hytrach na thâl mynediad yn gymwys ar gyfer Cymorth Rhodd os yw'r ymwelydd yn talu o leiaf 10% yn fwy na'r pris mynediad arferol, neu os ydynt yn caniatáu ymwelwyr i ymweld â'r atyniad dros gyfnod o flwyddyn, drwy gynllun aelodaeth er enghraifft. Gweler www.giftaidvisitor.co.uk am wybodaeth bellach.

Nwyddau a gyfrannwyd

Gellir adhawlio Cymorth Rhodd ar eitemau a gyfrannwyd i siopau elusen. Mae hwn yn cynnwys trosi'r eitem i gyfraniad arian gan yr elusen sy'n gweithio fel asiant ar ran y rhoddwr, gwerthu'r eitem a rhoi'r arian i'r rhoddwr. Os yw'r rhoddwr yn dewis rhoi'r arian i'r elusen, gellir hawlio Cymorth Rhodd.

Mae cofnod clir o roi'r eitem a'r arian yn hanfodol, yn ogystal â chaniatâd i roi Cymorth Rhodd ar gyfer yr eitem. Arloeswyd hyn gan Sue Ryder Care; gweler y wefan ar http://www.suerydercar.org/pages/gift_aid_in_our_shops.html.

Ocsiynau

Mewn rhai achosion, gall fod rhan o'r arian a gynigiwyd ar gyfer eitem mewn ocsiwn elusen yn gymwys ar gyfer Cymorth Rhodd. Mae hyn yn digwydd pan fod gan eitem werth clir, a rhaid ei ddatgan adeg yr ocsiwn. Er enghraifft, os yw rhoddwr yn cynnig £700 am ddau docyn teithio sy'n costio £500, gellir hawlio Cymorth Rhodd ar y £200 ychwanegol.

Casgliadau

Ar hyn o bryd, ni ellir hawlio Cymorth Rhodd ar gasgliadau blwch neu fwced ble nad oes llwybr archwilio clir i gysylltu'r rhoddwr â'i gyfraniad. Fodd bynnag, os ddefnyddiwch amlenni dan sêl gyda datganiad Cymorth Rhodd wedi printio arnynt, a'ch bod yn cadw cofnodion addas, gallwch wedyn hawlio Cymorth Rhodd ar gasgliadau. Hefyd, gallwch hawlio Cymorth Rhodd ar flychau casglu yng nghartrefi'r rhoddwyr ar gyfer eu newid mân.

O fis Ebrill 2013 bydd cynllun newydd ar gael i alluogi Cymorth Rhodd i gael ei hawlio ar hyd at £5000 o roddion bychain heb yr angen am ddatganiadau (er y bydd angen i elusennau fod yn gofrestredig am dair blynedd cyn hawlio).

Mae dulliau eraill o hyrwyddo Cymorth Rhodd yn cynnwys hysbysebu, mewnosodiadau, adroddiadau blynyddol, anfon llythyron, erthyglau cylchgrawn neu bapur newydd. Mae llwyddiant Cymorth Rhodd yn dibynnu ar hyrwyddo cyson.

Deg ffordd syml o gynyddu nifer eich rhoddwyr sy'n defnyddio Cymorth Rhodd

Mae rhoddwyr yn hoff o roi mewn modd sy'n effeithiol o ran treth, gan ei fod yn cynyddu gwerth eu rhoddion heb unrhyw gost ychwanegol iddynt hwy, ac yn achos talwyr treth cyfradd uwch sy'n cael hawlio treth yn ôl, nid i'r elusen yn unig y mae'r budd.

Mae NfpSynergy (2004) yn awgrymu deg ffordd syml i'ch helpu i wneud y mwyaf o Gymorth Rhodd:

1. Enwebu llysgennad Cymorth Rhodd – (staff neu wirfoddolwr)

Enwebwch berson yn eich elusen i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y mudiad yn cael cymaint â phosibl o bobl i ddefnyddio Cymorth Rhodd, ac efallai'n gyffredinol ar gyfer rhoi mewn modd sy'n effeithiol o ran treth. Dylai'r unigolyn friffio'r holl staff a gwirfoddolwyr, newydd a hen, am fuddion Cymorth Rhodd ac effeithiolrwydd treth. Byddai hwn yn bwnc defnyddiol mewn Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol a chynadleddau.

2. Ysgrifennu briff syml ar Gymorth Rhodd (a ffyrdd eraill treth effeithiol o roi) i'ch holl gefnogwyr.

Er bod Cymorth Rhodd yn syml, yn aml caiff ei gamddeall neu ei osgoi oherwydd anwybodaeth. Mae'n rhaid disgwyl y bydd gan roddwyr gwestiynau neu bryderon am Gymorth Rhodd, ac mae briffio ar ffurf cwestiwn ac ateb yn ffordd hawdd i leddfu'r pryderon hyn.

3. Adnabod eich cefnogwyr a deall pam fod rhai'n methu defnyddio Cymorth Rhodd

Elfen hanfodol o unrhyw ymgyrch yw deall eich cefnogwyr a chanfod y rhwystrau, a all fod yn rhai real (megis peidio talu treth neu fyw dramor) neu'n dybiedig (megis credu bod Cymorth Rhodd yn ymrwymiad mwy). Y ffordd hawsaf o ddysgu am eich rhoddwyr yw anfon holiadur syml a gofyn cwestiynau allweddol i bobl a fydd yn eich helpu i ddeall mwy amdanynt.

4. Adnabod ystadegau Cymorth Rhodd a faint o dreth allwch chi ei adhawlio.

Dylech adnabod canran eich rhoddwyr cymwys.

5. Adeiladu eich targedau Cymorth Rhodd i mewn i'ch strategaeth codi arian

Dylid cynnwys targedau cymorth rhodd yn eich adroddiad blynyddol, yn y cynlluniau strategol ac yn amcanion perfformio unigol eich pobl. Beth sy'n darged addas ar gyfer Cymorth Rhodd? Mae elusennau cenedlaethol wedi cyrraedd cyfradd drosi o 80% (i Gymorth Rhodd), ac er nad yw hyn o reidrwydd yn realistig i fudiadau llai, mae nifer o bobl sy'n codi arian yn broffesiynol yn credu bod 75% (o roddwyr cymwys) yn darged realistig y gellir ei gyflawni.

6. Cysylltu â phobl sydd ddim yn trosi gyda phostiad solus

Mantais postiad wedi'i dargedu yw y gallwch annog pobl i ddweud wrthych pam nad ydynt wedi llofnodi datganiad. Gellir defnyddio'r math hwn o adborth i ddarganfod a ydynt yn gymwys ai peidio (yn talu treth incwm neu dreth enillion cyfalaf).

7. Ffonio pob person sydd heb ymateb i bostiad solus

Mae galwad ffôn dilynol yn ffordd briodol o sicrhau bod rhoddwyr yn deall Cymorth Rhodd. Ac ystyried y caiff talwyr trethi ar gyfradd uwch adennill y gwahaniaeth rhwng treth gyfradd sylfaenol a chyfradd uwch drwy eu ffurflenni treth, nid i'r elusen yn unig y mae buddion Cymorth Rhodd.

8. Rhoi Cymorth Rhodd treth-effeithiol ar agenda cyfarfodydd ymddiriedolwyr ddwywaith y flwyddyn.

9. Datblygu ffynonellau incwm codi arian sy'n cyd-fynd â Chymorth Rhodd

Ceisio datblygu ffynonellau incwm a ellir eu defnyddio ar gyfer Cymorth Rhodd (e.e. digwyddiadau noddedig, rhoi ymrwymedig) yn hytrach na'r rhai na ellir ei defnyddio i hawlio Cymorth Rhodd (blychau casglu, digwyddiadau).

10. Rhowch wybodaeth i staff a gwirfoddolwyr am bwysigrwydd Cymorth Rhodd.

Hyfforddi, hyfforddi a hyfforddi eto.

Tacluso

Mae'n arfer da ysgrifennu at bob rhoddwr ar ddiwedd y flwyddyn. Yn gyntaf oll, mae hyn yn gyfle i chi ddiolch iddynt. Dylai eich llythyr hefyd nodi faint o'r hyn y maent wedi'i roi yr ydych chi'n ei hawlio gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae hyn yn rhoi'r union ffigur i'r rhoddwr os oes yn rhaid iddynt lenwi Ffurflen Dreth, a gallant hefyd gadarnhau a ydynt wedi talu digon o dreth ar gyfer eu rhoi – sy'n bwysig os ydy amgylchiadau ariannol rhywun wedi newid dros y flwyddyn. *Cofiwch y gall pobl dynnu datganiad yn ôl unrhyw adeg, er bod yn rhaid gwneud hynny ar bapur.*

Gwybodaeth bellach

Cymru'n Rhoi
Llinell gymorth 0800 2888 329
givingwales@wcva.org.uk

Cynllun rhoi drwy'r gyflogres
www.charitablegiving.co.uk

Institute of Fundraising
www.tax-effectivegiving.org.uk

HMRC Charities
Helpline 0845 302 0203
charities@hmrc.gov.uk
www.hmrc.gov.uk

Cyfeirnodau

CAF (2009) The public bond with tax-effective giving in the UK
A survey of public awareness and usage of tax-effective giving methods.

HMRC / CAF (2008)
Key Barriers to the Adoption of Gift Aid

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:01/07/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk